

Datganiad Blynyddol Cydymffurfiaeth WWH

Rhif Cofrestru Cymdeithas Tai Wales & West Cyfyngedig 21114R

Swyddfa Gofrestredig - Archway House, 77 Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd CF 14 5DU

Yn unol â'r Fframwaith Rheoleiddio ar gyfer Cymdeithasau Tai sydd wedi'u Cofrestru yng Nghymru, mae'r Datganiad Cydymffurfiaeth blynyddol hwn yn cadarnhau bod y Gymdeithas wedi bodloni'r Safonau Perfformiad fel y'u pennwyd gan Weinidogion Cymru yn unol ag Adran 33A Deddf Tai 1996.

Lle na ellir dangos tystiolaeth o gydymffurfio'n llawn ag unrhyw un o'r Safonau Perfformiad, nodir yr eglurhad a darperir crynodeb o'r camau gweithredu i'w cymryd (gan gynnwys amserlen) i wella'r sefyllfa gydymffurfiaeth. Mae'r eglurhad a'r camau gwella yn amodol ar drafodaeth/asesiad gyda'r Rheoleiddiwr.

Safon	Sut mae hyn yn cael ei gyflawni?	Camau Gwella
SP.1: Rheolaeth effeithiol y Bwrdd a'r weithrediaeth gyda gweledigaeth glir ac uchelgeisiol ar gyfer y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig		
CANLLAWIAU		
<ul style="list-style-type: none">Gosod gweledigaeth a gwerthoedd clir ar gyfer y sefydliad sy'n cyflawni ac yn datblygu diben craidd y busnes	<p>Cytunwyd ar weledigaeth WWH (twf cryf, cynaliadwy i wneud gwahaniaeth i fywydau, cartrefi a chymunedau pobl) gan y Bwrdd yn 2011. Mae'r weledigaeth hon a'i gwerthoedd (teg, agored, cyfrifol, cefnogol ac effeithlon) wedi'u sefydlu'n dda ac yn cael eu deall yn y busnes a'u hatgynhyrchu ar wefan WWH yn ogystal â rhai cyhoeddiadau eraill, gan gynnwys yr Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol, a'r Cynlluniau Busnes. Mae gwerthoedd y Gymdeithas hefyd yn cael eu hargraffu ar rai dogfennau mewnol megis proffiliau rôl a thempledi Sgwrs Datblygu.</p> <p>Mae Gweledigaeth a Gwerthoedd WWH i'w gweld yn amlwg yn y Cynllun Busnes 2019 -2023 a gymeradwywyd gan y Bwrdd fis Medi 2018 yn dilyn ystyriaeth gynharach o'r cynnwys yn y diwrnodau yr oedd y Bwrdd yn cwrdd i ffwrdd fis Gorffennaf 2018.</p> <p>Mae'r Bwrdd yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith o ddatblygu a chymeradwyo'r Cynlluniau Busnes treigl 5 mlynedd (gweler cofnodion y Bwrdd Medi 2018 eitem 28.04). Nid oes angen sicrwydd ychwanegol gan y Bwrdd yn y maes hwn.</p>	

Safon	Sut mae hyn yn cael ei gyflawni?	Camau Gwella
<ul style="list-style-type: none"> Mae'r trefniadau llywodraethu yn sefydlu ac yn cynnal rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd clir ar gyfer y bwrdd, y cadeirydd a'r prif weithredwr ac yn sicrhau bod trefniadau uniondeb priodol yn e lle 	<p>Mae'r fframwaith llywodraethu cyffredinol wedi'i gynnwys yn Rheolau, Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol y Gymdeithas. Mae'r rhain yn nodi rolau, cyfrifoldebau ac atebolrwydd y Bwrdd, y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, a diweddarwyd y Rheolau Sefydlog ddiwethaf fis Gorffennaf 2017, a'r Rheoliadau Ariannol fis Rhagfyr 2017 (gweler cofnodion y Bwrdd Gorffennaf 2017 eitem 10.01, a Rhagfyr 2017 eitem 47.11). Mae gwybodaeth fanylach am y rhain a rolau eraill wedi'u nodi mewn proffiliau rôl unigol sydd yn eu lle ar gyfer y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd ac Aelodau'r Bwrdd. Mae copïau o'r rhain ar Becynnau'r Bwrdd.</p> <p>Mae gan y Pwyllgor Uniondeb ac Archwilio rôl i gefnogi'r Bwrdd i sicrhau bod WWH yn cyflawni ei ddyletswyddau i'r safonau uchaf posibl. Ymhlith cyfrifoldebau penodol y Pwyllgor mae adolygu'r trefniadau llywodraethu i sicrhau bod safonau modern yn cael eu bodloni a sicrhau bod unrhyw wendidau mewn safonau yn cael eu hunioni yn gyflym. Nodir swyddogaeth a chyfrifoldebau'r Pwyllgor U&A yn y Rheolau Sefydlog. Mae'r Pwyllgor U&A yn cynhyrchu adroddiad blynyddol i'r Bwrdd sy'n crynhoi eu gweithgareddau. Cyflwynwyd adroddiad 2018 i'r Bwrdd fis Chwefror 2019.</p> <p>Mae swydd newydd Rheolwr Llywodraethu wedi'i sefydlu yn ddiweddar a dechreuodd deiliad y swydd ar ei waith fis Chwefror 2019. Bydd deiliad y swydd newydd yn gweithio gyda'r Bwrdd a'r Prif Weithredwr i sicrhau bod y safonau llywodraethu uchaf yn eu lle.</p> <p>Gall aelodau'r Bwrdd weld Rheolau, Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol y Gymdeithas, a phroffiliau rôl y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd ac Aelodau'r Bwrdd, ar Becynnau'r Bwrdd. Cyflwynir cofnodion U&A i'r Bwrdd at ddibenion gwybodaeth ac mae copïau o agenda ac adroddiadau U&A hefyd ar gael ar Becynnau'r Bwrdd.</p>	
<ul style="list-style-type: none"> Cydymffurfio â dogfennau llywodraethu gan gynnwys mabwysiadu, a chydymffurfio â chod llywodraethu priodol 	<p>Mabwysiadodd y Bwrdd God Llywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru fis Mawrth 2015 gan wneud nifer o fân newidiadau i'w Rheolau Sefydlog wedi hynny yn unol â gofynion y cod (gweler cofnodion y Bwrdd Mawrth 2015 eitem 98.5, a Gorffennaf 2015 eitem 12.4).</p> <p>Mae'r Bwrdd yn defnyddio Archwilio Mewnol cyfnodol i adolygu ei drefniadau llywodraethu i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gyfredol ac i brofi eu bod yn cydymffurfio â'i ddogfennau llywodraethol a'r cod llywodraethu cyffredinol. Roedd adroddiadau a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Uniondeb ac Archwilio fis Ionawr 2016 a fis Mawrth 2018 yn cadarnhau bod WWH yn cydymffurfio'n llawn â chod</p>	

Safon	Sut mae hyn yn cael ei gyflawni?	Camau Gwella
	<p>Ilywodraethu Cartrefi Cymunedol Cymru ar y pryd. Cyhoeddwyd cod diweddaraf Cartrefi Cymunedol Cymru yn fuan ar ôl i archwiliad mewnol Mawrth 2018 gael ei gwblhau, er bod adolygiad rhagarweiniol yn erbyn drafft o'r cod wedi'i ddiweddarau yn awgrymu y byddai WWH yn parhau i gydymffurfio. Trefnwyd archwiliad pellach i'w gynnal ddechrau 2019. Daeth canlyniadau'r archwiliad hwn, a gyflwynwyd i U&A yn ei gyfarfod fis Ebrill 2019, i'r casgliad bod WWH yn gallu dangos ei fod yn cydymffurfio â'r rhan fwyaf o'r arferion a argymhellwyd yng Nghod Llywodraethu diwygiedig Cartrefi Cymunedol Cymru, ac y byddai'r Rheolwr Llywodraethu oedd newydd ei benodi yn adolygu trefniadau llywodraethu y Gymdeithas yn fwy manwl gyda'r bwriad o gyflwyno canfyddiadau ac argymhellion i'r Bwrdd yn ei Ddiwrnodau Cwrdd i Ffwrdd yn 2020.</p>	
<ul style="list-style-type: none"> • Cydymffurfio â'r holl ddeddfau perthnasol 	<p>Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau allweddol sy'n destun materion cyfreithiol / rheoleiddio yn cael eu cwmpasu gan ddogfennau polisi, gweithdrefnau a nodiadau cyfarwyddyd a adolygir yn rheolaidd. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y gweithgareddau hyn yn cael eu cyflawni yn unol â'r fframwaith rheoleiddio a'r gyfraith.</p> <p>Mae aelodaeth gorfforaethol o sefydliadau perthnasol (megis Cartrefi Cymunedol Cymru), sesiynau briffio gan ymgynghorwyr proffesiynol, rhwydweithio cyffredinol a darparu hyfforddiant / cymorth / goruchwyliaeth barhaus i'r staff yn cynyddu ymwybyddiaeth o faterion cydymffurfio, a newidiadau mewn deddfwriaeth / gofynion rheoleiddio.</p> <p>Rhoddir sicrwydd drwy gyfuniad o ffyrdd gan gynnwys mesurau perfformiad (e.e. gwasanaethu offer nwy), ffurflenni rheoleiddio, adolygiadau ac arolygiadau allanol, ac archwiliadau lechyd a Diogelwch mewnol. Yn ogystal, caiff gweithgareddau eu hadolygu gan yr Archwilydd Mewnol yn unol â rhaglen waith sy'n cael ei diweddarau'n rheolaidd ac sy'n cael ei chymeradwyo gan y Pwyllgor Uniondeb ac Archwilio.</p> <p>Cafodd crynodeb cychwynnol o fframwaith Sicrwydd y Bwrdd oedd yn amlinellu'r strwythur "tair llinell amddiffyn" ei drafod gan y Bwrdd yn ei gyfarfod fis Mawrth 2018 ac yn dilyn mân newidiadau cymeradwywyd y fframwaith yn ei gyfarfod fis Mai 2018 (gweler cofnodion y Bwrdd eitemau 73.07 ac 89.6). Mae amrywiol adroddiadau ar faterion Cydymffurfiaeth Eiddo wedi'u trafod gan y Bwrdd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a chytunwyd ar fframwaith sicrwydd Cydymffurfiaeth Eiddo yn dilyn gweithdy'r Bwrdd fis Chwefror 2019.</p>	

Safon	Sut mae hyn yn cael ei gyflawni?	Camau Gwella
<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y Rheoleiddiwr yn ceisio sicrwydd ar ansawdd arweinyddiaeth y Bwrdd a'r uwch dîm rheoli 	<p>Mae'r tîm Gweithredol yn ceisio perthynas gadarnhaol ac agored gyda'r Rheoleiddiwr. Mae'r Rheolwr Rheoleiddio yn cyfarfod ag aelodau'r Tîm Gweithredol a'r Cadeirydd ychydig o weithiau'r flwyddyn. Mae gan y Rheolwr Rheoleiddio fynediad i adroddiadau'r Bwrdd a'r Pwyllgorau a ffynonellau eraill o wybodaeth ym Mhecynnau'r Bwrdd ac mae'r Rheolwr yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau o bryd i'w gilydd felly mae'n gallu ffurfio barn am ansawdd arweinyddiaeth y Bwrdd a'r uwch dîm rheoli.</p> <p>Mae proses ffurfiol o arfarnu yn ei lle ar gyfer y Bwrdd, a gall y canlyniadau amlygu anghenion hyfforddi y gellir ymdrin â hwy, neu fylchau yn y cymysgedd sgiliau y gellid ymdrin â hwy drwy broses Cyfethol ar y Bwrdd. (Gweler cofnodion y Bwrdd Mai 2018 eitem 89.2 a chyflwyniad o'r Diwrnodau Cwrdd i Ffwrdd Gorffennaf 2018.)</p> <p>Caiff aelodau'r Bwrdd eu hethol o blith cyfranddalwyr. Mae'n rhaid i gyfranddalwyr posibl lenwi ffurflen gais sy'n cynnwys cwestiynau pam eu bod am ddod yn gyfranddaliwr, pa sgiliau a phrofiad y gallent eu cyflwyno i'r Gymdeithas, a sut maent yn cyflawni'r gofyniad o fod â'r potensial i fod yn aelod o'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd wedyn yn penderfynu a ddylid derbyn neu wrthod ceisiadau yn unol â'r meini prawf a nodir yn y polisi Cyfranddalwyr. Mae hyn yn galluogi'r Bwrdd i sicrhau bod ei aelodau o "ansawdd" addas.</p> <p>Caiff yr uwch dîm rheoli ei recriwtio yn dilyn proses drylwyr o ddewis a dethol. Mae pob aelod o'r tîm o Uwch Reolwyr yn cael "sgyrsiau datblygu" rheolaidd gyda'u rheolwr llinell yn yr un modd â phob aelod arall o staff, sy'n eu galluogi i ôl-ystyried eu gweithgareddau gwaith a'u hymddygiad ochr yn ochr â model gwerthoedd ac arweinyddiaeth y Gymdeithas.</p> <p>Cyfrifoldeb y Cadeirydd yw'r trefniadau ar gyfer arfarnu / datblygu perfformiad Prif Weithredwr y Grŵp yn unol â rheolau sefydlog WWH.</p> <p>Mae gan y Gymdeithas hanes da o ran ei chadernid ariannol parhaus, cyflawni ei hamcanion busnes, perfformiad cadarnhaol yn erbyn ei dangosyddion, ac mewn perthynas â chydymffurfio â materion eiddo a llwyddo i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru yn gynnar. Mae hyn yn tystio i ansawdd yr arweinyddiaeth gan y Bwrdd a'r Uwch Reolwyr. At hynny, mae amrywiol gwestiynau am ansawdd yr arweinydd a'r uwch dîm rheoli wedi'u cynnwys yn yr arolwg o farn staff y Cwmnïau Gorau. Mae'r</p>	

Safon	Sut mae hyn yn cael ei gyflawni?	Camau Gwella
	ymatebion cryno i'r cwestiynau hyn a safle uchel y Gymdeithas ar y rhestr o Gwmnïau Gorau yn rhoi tystiolaeth bellach o ansawdd yr arweinyddiaeth.	
<ul style="list-style-type: none"> • Disgwylir i Fyrddau roi ystyriaeth briodol i fframweithiau sicrwydd eu Bwrdd 	<p>Fel y nodir uchod, cafodd Fframwaith Sicrwydd cychwynnol y Bwrdd ei gymeradwyo gan y Bwrdd fis Mai 2018 a chytunwyd y byddai'n cael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn flynyddol.</p> <p>Ar gais y Rheoleiddiwr yn dilyn gwendid a nodwyd mewn cydymffurfiaeth iechyd a diogelwch eiddo mewn cymdeithas dai arall, roedd WWH wedi galw cyfarfod arbennig o'r Bwrdd fis Mehefin 2018 oedd yn crynhoi sut oedd y Bwrdd yn cael sicrwydd ar gydymffurfiaeth eiddo ac yn nodi rhai ychwanegiadau a awgrymwyd i'w cynnwys yn Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn yr adolygiad blynyddol nesaf (gweler cofnodion y Bwrdd Mehefin 2018 eitem 98.1). Roedd y Bwrdd wedi cymryd rhan mewn gweithdy ar Sicrwydd Cydymffurfiaeth Eiddo ychydig cyn ei gyfarfod fis Chwefror 2019 (gweler cofnodion y Bwrdd eitem 08.01).</p>	<p>Mae angen adolygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, yn dilyn y dulliau Sicrwydd Eiddo y cytunwyd arnynt yn ddiweddar. Cyflwynir hyn ynghyd â'r broses barhaus o adolygu, gerbron y Bwrdd fis Gorffennaf 2019.</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Rhaid i Fyrddau fod yn strategol effeithiol wrth flaen-gynllunio a gweld y 'darlun mwy', a dylent fod yn ymwybodol o oblygiadau y newid cyflym yn yr amgylchedd allanol 	<p>Mae rôl y Bwrdd "i gyfeirio busnes y Gymdeithas ac i sicrhau bod ei swyddogaethau yn cael eu cyflawni'n briodol" wedi'i nodi yn y Rheolau Sefydlog. Cynhelir cyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd bob rhyw 6 wythnos a rhennir yr eitemau ar yr agenda yn y categorïau a'r drefn ganlynol: -</p> <ul style="list-style-type: none"> • Materion strategol / llywodraethu • Datblygu • Penderfyniadau • Gwybodaeth <p>Cynhelir un cyfarfod o'r Bwrdd bob blwyddyn yn union cyn "diwrnodau cwrdd i ffwrdd" y Bwrdd lle maent yn treulio gweddill y dydd, a'r diwrnod canlynol yn trafod blaen-gynllunio a materion perthynol.</p> <p>Bob chwarter, mae'r Bwrdd yn trafod diweddariad chwarterol o'r perfformiad Strategol, Gweithredol ac Ariannol (Adroddiad Perfformiad). Rhennir yr adroddiad hwn yn ddwy adran. Mae'r adran gyntaf yn nodi'r materion arwyddocaol a pherthnasol y mae angen i'r Bwrdd ganolbwyntio arnynt, ac mae'n cynnwys adran ar faterion sy'n dod i'r amlwg. Mae'r ail adran yn cynnwys cyfres o atodiadau sy'n</p>	

Safon	Sut mae hyn yn cael ei gyflawni?	Camau Gwella
	<p>darparu'r wybodaeth a'r dystiolaeth perfformiad ac ariannol y mae angen i'r Bwrdd fod yn ymwybodol ohonynt. Mae hyn yn rhoi trosolwg i'r Bwrdd o'r materion allweddol. Yn ogystal, cyflwynir adroddiadau penodol i'r Bwrdd sy'n amlinellu unrhyw faterion neu newidiadau allweddol sydd i ddod, fel eu bod yn ymwybodol o'r goblygiadau posibl, a lle bo angen, yn gallu cymeradwyo unrhyw gamau gweithredu (megis cymeradwyo cyfranogiad y Gymdeithas mewn buddsoddi yn y cais cynllun twf ar gyfer Gogledd Cymru - gweler Cofnodion y Bwrdd Gorffennaf 2018 eitem 12.10).</p> <p>Mae arfarnu tîm y Bwrdd yn edrych ar berfformiad y Bwrdd yn ei gyfanrwydd. Mae'r arfarnu yn seiliedig ar benawdau adran a gymerir o God Llywodraethu presennol Cartrefi Cymunedol Cymru sy'n cynnwys ystyried a yw'r Bwrdd yn deall yr amgylchedd y mae'r sefydliad yn gweithredu ynddo, p'un a yw'n amlwg mai ei brif ffocws yw strategaeth, perfformiad a sicrwydd yn hytrach na materion gweithredol. Roedd canlyniadau cryno arfarnu tîm y Bwrdd yn 2018 yn dangos bod aelodau'r Bwrdd ar y cyfan yn fwy na bodlon ar eu perfformiad yn hyn o beth, ac ar feysydd eraill (gweler y cyflwyniad ar y Diwrnodau Cwrdd i Ffwrdd ym Mhecynau'r Bwrdd Gorffennaf 2018).</p>	
<ul style="list-style-type: none"> Disgwylir i Gymdeithasau Tai weithredu'r gofynion cydraddoldeb ac amrywiaeth a nodir yn y Cod Llywodraethu a Deddf Cydraddoldeb 2000 	<p>Mae'r Adroddiad Alldro Blynyddol ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth yn crynhoi i ba raddau yr oedd y Gymdeithas yn cydymffurfio â'i Pholisi Cydraddoldeb o ran darparu gwasanaethau yn y flwyddyn flaenorol.</p> <p>Daeth adroddiad 2017, a drafodwyd gan y Bwrdd fis Mawrth 2018, i'r casgliad drwy edrych ar yr holl ddata a gedwir gan y Gymdeithas, nad oedd unrhyw feysydd lle'r oedd yn ymddangos bod unrhyw grŵp penodol o breswylwyr yn cael eu trin yn llai ffafriol nag un arall, er bod y setiau data mewn rhai achosion wedi'u seilio ar niferoedd isel iawn ac felly nid oedd y dadansoddiad yn ddibynadwy. Mae'r dadansoddiad o berfformiad yn 2018 yn destun adroddiad i'r Bwrdd fis Ebrill 2019 sy'n cynnwys dadansoddiad pellach am breswylwyr Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig a phreswylwyr anabl.</p> <p>Mae Bwrdd presennol WWH yn gymysg ac yn amrywiol ac eithrio cynrychiolaeth Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig. Bydd hyn yn cael ei adolygu.</p>	

Safon	Sut mae hyn yn cael ei gyflawni?	Camau Gwella
SP.2 Ymgyfraniad effeithiol a phriodol gan denantiaid, yn dangos ansawdd uchel ac yn gwella gwasanaethau		
CANLLAWIAU		
<ul style="list-style-type: none"> Dangos sut mae'r tenantiaid yn ymwneud yn effeithiol mewn gwneud penderfyniadau strategol a llunio gwasanaethau mewn ffyrdd priodol ar gyfer tenantiaid a'r sefydliad. 	<p>Mae'r Strategaeth Cyfranogiad Preswylwyr a gymeradwywyd gan y Bwrdd fis Ionawr 2017 (gweler cofnodion eitem 77.07) yn nodi sut mae preswylwyr yn cyfranogi ac yn ymgysylltu yn rhan annatod o waith y Gymdeithas drwy ei Egwyddorion Gweithredu a'r prosesau "A ydym wedi gwrando". Mae ymagwedd WWH tuag at Gyfranogiad Preswylwyr yn cael ei harwain a'i llywio gan grŵp o breswylwyr ymroddedig sy'n ymwneud â'r Gymdeithas, sef y Grŵp Llywio Cyfranogiad Preswylwyr. Mae cyfranogiad preswylwyr yn cael ei hyrwyddo drwy wefan WWH, y cylchgrawn In Touch a'r Swyddog mewnol Strategaeth Cyfranogiad Preswylwyr.</p> <p>Cynhelir asesiad cynhwysfawr o'r galw am wasanaethau drwy ymgysylltu â'r preswylwyr i ddeall 'yr hyn sy'n bwysig' iddynt. Mae hyn yn rhan o'r dull meddwl drwy systemau a fabwysiadwyd ar draws y Gymdeithas. Mae gwasanaethau yn cael eu llunio a'u hail-ddylunio i gyflawni blaenoriaethau'r preswylwyr, a gofynnir yn rheolaidd am adborth y preswylwyr am berfformiad, ac a yw'r blaenoriaethau a'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt wedi newid. Datblygir mesurau perfformiad ar sail blaenoriaethau ac adborth y preswylwyr, ac mae'r gwasanaethau yn cael eu monitro yn erbyn y blaenoriaethau a'r adborth hynny, a'r canlyniadau yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd ac yn ôl i'r preswylwyr drwy'r cylchgrawn In Touch. Y broses 'a ydym wedi gwrando' yw'r dull o ymgysylltu â phreswylwyr ar lefel cynllun i lywio'r modd y darperir gwasanaethau yn lleol a'r blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi a'r camau eraill o weithredu.</p> <p>Mae'r Bwrdd yn derbyn adborth gan y preswylwyr ar wasanaethau drwy amrywiaeth o arolygon barn, gan gynnwys arolwg cynhwysfawr allanol a gynhelir bob tair blynedd.</p> <p>Gall y Bwrdd weld crynodeb o'r mesurau perfformiad allweddol a'r naratif perthnasol yn yr adroddiadau chwarterol ar berfformiad. Gall y Bwrdd hefyd weld gwybodaeth yn y cylchgrawn In Touch.</p>	
<ul style="list-style-type: none"> Yn bodloni'r holl ofynion statudol perthnasol sy'n darparu ar gyfer iechyd a 	<p>Mae'r tîm Cydymffurfiaeth o fewn y Gwasanaethau Eiddo yn cydlynu ac yn monitro cydymffurfiaeth â'r rhan fwyaf o'r gwiriadau diogelwch statudol (e.e. nwy). Mae Swyddogion Rheoli Asedau yn cynnal archwiliadau rheolaidd ar ddiogelwch rhag tân ac archwiliadau cynlluniau. Mae'r tîm Iechyd a</p>	

Safon	Sut mae hyn yn cael ei gyflawni?	Camau Gwella
<p>diogelwch y preswylwyr yn y cartref</p>	<p>Diogelwch wedi rhoi cyngor arbenigol ar faterion megis legionella a diogelwch rhag tân ac yn cynnal gwiriadau cyfnodol a cherdded o gwmpas y cynlluniau. Lle bo'n briodol, cynhelir adolygiadau penodol mewn ymateb i ddigwyddiadau neu rybuddion, megis tân Grenfell. Mae'r Archwiliad Mewnol hefyd yn rhoi sicrwydd cyfnodol yn y maes hwn.</p> <p>Yn ddiweddar, mae'r Gymdeithas wedi adolygu a ffurfioli ei dulliau o roi Sicrwydd Cydymffurfiaeth Eiddo drwy ddilyn yr argymhellion a wnaed gan Lywodraeth Cymru. Cymerodd y Bwrdd ran mewn gweithdy ar Gydymffurfiaeth Eiddo cyn cyfarfod y Bwrdd fis Chwefror 2019 (gweler eitem 08.01) ac yn dilyn hynny cafodd y dulliau a'r trefniadau diwygiedig eu cymeradwyo. Yn ogystal, bydd atodiad newydd "Cydymffurfiaeth Eiddo" yn cael ei ychwanegu at yr adroddiad perfformiad chwarterol fis Mai 2019.</p>	
DISGWYLIADAU RHEOLEIDDIO YCHWANEGOL		
<ul style="list-style-type: none"> Mae angen i Fyrddau roi sicrwydd bod eu system o gyflwyno adroddiadau ar lechyd a Diogelwch yn gywir ac yn gadarn ac yn nodi eu methodoleg sicrwydd ar gyfer Systemau Rheoli a 	<p>Fel uchod, bu'r Bwrdd yn trafod y trefniadau sicrwydd yn y Gweithdy ar Gydymffurfiaeth Sicrwydd Eiddo fis Chwefror 2019, ac yn dilyn hynny cymeradwywyd cyflwyno "fframweithiau Cydymffurfiaeth Eiddo" ar gyfer nwy, trydan, tân, legionella ac asbestos.</p> <p>Mae pob dogfen fframwaith yn nodi: -</p> <ul style="list-style-type: none"> Crynodeb byr sy'n amlinellu'r prif ofynion cyfreithiol a dulliau WWH Siartiau sy'n dangos llif y prif waith 	

Safon	Sut mae hyn yn cael ei gyflawni?	Camau Gwella
<p>pherfformiad lechyd a Diogelwch.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Crynodeb byr sy'n amlinellu llinell gyntaf, ail a thrydedd llinell y rheolaethau amddiffyn yn erbyn pob un o'r prif amcanion rheoli (cyfanrwydd, cywirdeb a chymhwysedd) ar gamau perthnasol o'r llif gwaith, a'r modd y gellid tystio i hyn. 	
<ul style="list-style-type: none"> Disgwylir i Fyrddau ddeall eu data SATC a'u cynlluniau i wella cydymffurfiaeth a lleihau nifer y methiannau derbyniol, gan flaenoriaethu gosod cawodau ac amwynderau sylfaenol eraill 	<p>Mae'r Bwrdd yn derbyn data cydymffurfiaeth SATC yn flynyddol ac yn cymeradwyo cyflwyno ffurflen flynyddol statudol SATC (gweler cofnodion Bwrdd Gorffennaf 2018 eitem 12.5).</p> <p>Dangosodd adroddiad y Bwrdd 2018 nad oedd gan WWH stoc nad oedd yn cydymffurfio, er bod 847 o unedau (8%) yn cydymffurfio yn amodol ar fethiannau derbyniol. Roedd canran y methiannau derbyniol wedi gostwng o 23% yn 2012 i 2% yn 2016 ond cynyddodd i 9% yn 2017 yn dilyn yr uno â Tai Cantref.</p> <p>Mae'r rhaglen o waith mawr sydd i'w gyflawni yn 2019 - 2021 yn canolbwyntio ar gynnal cydymffurfiaeth â SATC ledled Cymru, tra'n parhau i wella cyflwr cartrefi yng Ngorllewin Cymru yn benodol (gweler cofnodion y Bwrdd Rhagfyr 2018 eitem 12.1).</p>	<p>Mae gwaith yn mynd rhagddo i gyflwyno cyswllt clir mewn adroddiadau rhwng methiannau derbyniol oherwydd amseru a'r rhaglen o waith mawr (gweler Cynllun Gweithredu Archwilio Mewnol cyfeirnod 186). Bydd hyn yn galluogi'r Bwrdd i sicrhau bod unrhyw waith o'r fath yn cael ei flaenoriaethu yn unol â hynny.</p>
<p>SP.3 Asesiad cynhwysfawr o effeithiau risgiau cyfredol a risgiau sy'n dod i'r amlwg ar y busnes, gan gynnwys cyfleoedd busnes a datblygu newydd, gyda threfniadau rheoli risg cadarn</p>		
<p>CANLLAWIAU</p>		
<ul style="list-style-type: none"> Diogelu buddiannau trethdalwyr ac enw da y sector a diogelu asedau tai cymdeithasol 	<p>Mae gan y Gymdeithas brosesau rheoli busnes a rheolaeth ariannol effeithiol yn eu lle. Yn eu plith mae'r canlynol:-</p> <ul style="list-style-type: none"> Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol sy'n nodi materion a neilltuwyd i'r Bwrdd ac i awdurdod dirprwyedig Strategaeth ariannol a gymeradwyir gan y Bwrdd bob blwyddyn 	

Safon	Sut mae hyn yn cael ei gyflawni?	Camau Gwella
	<ul style="list-style-type: none"> Rhagolygon llif arian tymor byr, canolig a thymor hir a ategir gan ddadansoddiad sensitifrwydd cynhwysfawr, sy'n dangos hyfywedd y busnes. Cyfrifon rheoli chwarterol gyda dadansoddiad amrywiant <p>Yn unol â'r polisi rheoli risg, cedwir cofrestr risg Gorfforaethol. Caiff y gofrestr hon ei hadolygu a'i diweddarau, lle bo angen, gan yr uwch dîm rheoli bob chwarter. Mae'r gofrestr hon yn cynnwys risgiau a gynhwysir yn nogfen risgiau sector Llywodraeth Cymru yr aseswyd eu bod yn peri pryder i'r Grŵp, yn ogystal â risgiau eraill sy'n fygythiad sylweddol i'r busnes.</p> <p>Bob chwarter mae'r Bwrdd yn adolygu detholiad sy'n dangos pob risg sydd â graddfa risg gynhenid uchel neu ganolig fel rhan o'u hadolygiad o'r adroddiad perfformiad chwarterol. Ar gyfer rhai risgiau, fel y'u pennir gan y Bwrdd a/neu'r Weithrediaeth, darperir sicrwydd pellach drwy adroddiadau ychwanegol (e.e. llif arian a chyfamodau).</p>	
<ul style="list-style-type: none"> Asesu bod y gallu i fanteisio ar gyfleoedd busnes a datblygu newydd yn gadarn 	<p>Mae pob prosiect newydd a newidiadau i weithgareddau yn destun adroddiad penodol i'r Bwrdd sy'n cynnwys asesiad risg sy'n amlygu'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ymgymryd â'r prosiect newydd neu beidio. Asesir risgiau yn unol â matrices risg dros nifer o gategoriâu canlyniadau allweddol, sy'n cynnwys effeithiau ar faterion ariannol, cyflwyno gwasanaethau, ac ar adnoddau rheoli/ staff. Ar gyfer cyfleoedd datblygu a busnes newydd, gwneir arfarniad ariannol llawn a'i gyflwyno i'r Bwrdd i'w cynorthwyo i wneud penderfyniadau (e.e. ymrwymo i gontract i ddatblygu tir yn Lôn Clive, Gorffennaf 2018 - gweler cofnodion y Bwrdd eitem 13.8).</p> <p>Yn ogystal, mae'r Bwrdd yn derbyn diweddariad o'r sefyllfa ariannol ym mhob cyfarfod sy'n proffilio goblygiadau ariannol ymrwymadau pellach yng nghyd-destun yr ymrwymadau cyfredol a benthyciadau (e.e. gweler cofnodion y Bwrdd Rhagfyr 2018 eitem 05).</p>	
<ul style="list-style-type: none"> Cynnal profion straen manwl a chadarn ar gynlluniau ariannol ar amrywiaeth o sefyllfaoedd, yn clustnodi strategaethau lliniaru priodol 	<p>Mae'r cynlluniau blynyddol 5 a 30 mlynedd yn cael prawf straen drwy ddefnyddio nifer o sefyllfaoedd unigol (megis cynyddu cyfraddau llog, chwyddiant a chostau cynnal a chadw yn ogystal â'r posibilrwydd o weld gostyngiadau neu rewi rhenti) ac wedyn fel aml sefyllfaoedd i roi syniad o'r hyn sy'n "torri'r" cynllun, a'r amser sydd ar gael i gymryd camau unioni.</p> <p>Bu'r Bwrdd yn trafod ac yn cymeradwyo'r materion sensitif posibl i'w cynnwys yn y cynllun busnes yn ei gyfarfodydd mis Mai a mis Gorffennaf 2018. Roedd y materion sensitif hyn yn amlygu yn</p>	

Safon	Sut mae hyn yn cael ei gyflawni?	Camau Gwella
	bennaf y risgiau ariannol allweddol a glustnodwyd yng nghofrestr risg y Gymdeithas (gweler cofnodion y Bwrdd Mai 2018 eitem 89.4 a Gorffennaf 2018 eitem 12.2).	
<ul style="list-style-type: none"> • Cyn cymryd ymrwymiadau newydd, sicrhau y caiff oblygiadau eu deall yn llawn a dangos yr ystyriwyd sut y caiff yr effaith debygol ar fusnes cyfredol a dyfodol a chydymffurfiaeth rheoleiddiol ei reoli 	<p>Fel uchod, mae prosiectau newydd a newidiadau i weithgareddau allai olygu risgiau sylweddol yn destun adroddiad penodol i'r Bwrdd sy'n amlinellu'r manteision a'r risgiau posibl o ymgymryd â'r gweithgaredd newydd (e.e. Darparu Gofal yn Viola Avenue, Medi 2018 - gweler cofnodion y rhith-gyfarfod).</p> <p>Lle bo angen, ceisir cyngor cyfreithiol a chyngor arbenigol arall i sicrhau bod diwydrwydd dyladwy priodol yn cael ei gwblhau (e.e. Comisiynwyd 'First Actuarial', sef actiwari annibynnol yn 2018 i gynnal adolygiad pensiwn i asesu'r opsiynau oedd ar gael i'r Gymdeithas - gweler cofnodion y Bwrdd Rhagfyr 2018 eitemau 10.4). Yn ogystal, bydd cynlluniau ariannol tymor hir yn cael eu hail-fodelu i asesu'r effaith debygol ar y llif arian yn y dyfodol ac ar gydymffurfio â chyfamodau (e.e. uno â Tai Cantref yn 2016 - gweler cofnodion y Bwrdd Mehefin 2016 eitemau 14.7).</p> <p>Mae'r Bwrdd yn cymeradwyo'r Strategaeth Ariannol flynyddol sy'n manylu ar yr ymagwedd at fenthyciadau a buddsoddiadau newydd ynghyd â'r rhagdybiaethau sy'n sail i'r arfarniadau ariannol a ddefnyddir ar gyfer datblygiadau a mentrau newydd (gweler cofnodion y Bwrdd Rhagfyr eitem 10.3). Mae'r Bwrdd yn cymeradwyo benthyciadau newydd yn unigol ar ôl ystyried unrhyw rwymedigaethau a'r effaith ar gyfamodau (gweler cofnodion y Bwrdd Rhagfyr 2018 eitem 10.3).</p>	
DISGWYLIADAU RHEOLEIDDIO YCHWANEGOL		

Safon	Sut mae hyn yn cael ei gyflawni?	Camau Gwella
<ul style="list-style-type: none"> Rhaid i'r Bwrdd sicrhau bod ei fframwaith rheoli risg yn addas, a rhaid iddo benderfynu ar ei awydd risg ar draws y busnes a sicrhau y caiff ei reoli'n effeithiol, yn enwedig yng nghyd-destun busnes newydd 	<p>Mae'r Bwrdd yn cynnal adolygiadau cyfnodol o'r polisi rheoli risg i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gyfredol. Cytunwyd ar y polisi a'r dulliau rheoli risg cyfredol fis Medi 2016 (gweler cofnodion y Bwrdd eitem 41.4). Bu'r Bwrdd yn adolygu'r gofrestr risg yn fanwl fel rhan o'r diwrnod cwrdd i ffwrdd fis Gorffennaf 2018 ac yn dilyn hynny ychwanegwyd nifer o risgiau newydd at y gofrestr, a barnwyd nad oedd nifer o'r risgiau eraill yn berthnasol bellach (gweler cofnodion mis Medi 2018 eitem 28.3).</p> <p>Yn unol â'r polisi, mae'r Pwyllgor Uniondeb ac Archwilio yn goruchwyllo'r gwaith o fonitro effeithiolrwydd y mesurau rheoli risg ar draws y Grŵp. Mae Rheolwr Archwilio Mewnol y Gymdeithas yn cynorthwyo'r pwyllgor yn y rôl hon drwy gynnal archwiliadau cyfnodol o'r dulliau rheoli risg i asesu effeithiolrwydd llywodraethu, rheoli'r risgiau sy'n hysbys, a chlustnodi'r ffactorau risg newydd (gweler yr adroddiad Archwilio Mewnol - Rheoli Risg 2018).</p>	
<ul style="list-style-type: none"> Mae disgwyliad llwyr y bydd cymdeithasau tai yn cynyddu datblygiadau tai i'r eithaf lle mae capasiti ar gael 	<p>Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i archwilio cyfleoedd addas i ddatblygu. Cadarnhawyd hyn yn ystod y drafodaeth ar y cynllun busnes yn ystod y diwrnodau cwrdd i ffwrdd fis Gorffennaf 2018, ac yn dilyn hynny cafodd y polisi ei ddiweddarau i amlygu lefel uwch o ddatblygiadau, yn enwedig eiddo Perchentyaeth Cost Isel.</p> <p>Mae'r cynllun busnes 2019 -2023 yn rhagweld y bydd 2,259 o dai wedi'u cwblhau dros oes y cynllun.</p>	
<ul style="list-style-type: none"> Mae angen i Fyrddau gael strategaethau yn eu lle i fonitro a rheoli llif arian a dylai fod yn ystyriol na chaiff ffrydiau cyllid cyfredol Llywodraeth Cymru eu gwarantu. Mae angen i Fyrddau gael sicrwydd ar a deall ystod o risgiau eraill sy'n eu hwynebu a'u heffaith ar gyflawni eu prosiect datblygu 	<p>Cyflwynir cynlluniau busnes a rhagolygon llif arian sy'n dangos gwariant datblygu ar wahân i'r "arian rhydd". Gall y Bwrdd weld yn glir felly beth yw effaith unrhyw lif arian datblygu.</p> <p>Hefyd mae'r Bwrdd yn derbyn adroddiadau sefyllfa ariannol ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd sy'n dangos gwariant a ymrwymwyd drwy gontract ar wahân i wariant a gymeradwywyd gan y Bwrdd a gwariant sy'n aros am gymeradwyaeth y Bwrdd. Mae hyn yn galluogi'r Bwrdd i weld effaith yr hyn y maent wedi ei gymeradwyo a'r hyn y gofynnir iddynt ei gymeradwyo. Gellid cwtdogi ar unrhyw wariant nas ymrwymwyd pe bai'r angen yn codi.</p>	

Safon	Sut mae hyn yn cael ei gyflawni?	Camau Gwella
<ul style="list-style-type: none"> Mae'n ofynnol i Fyrddau roi sicrwydd y caiff arallgyfeirio ei reoli'n effeithiol 	<p>Gall Bwrdd WWH roi sicrwydd bod arallgyfeirio yn cael ei reoli'n effeithiol oherwydd bod y Bwrdd yn cymeradwyo unrhyw newidiadau mewn gweithgaredd. Caiff y rhan fwyaf o weithgareddau nad ydynt yn rhai craidd eu sianelu drwy is-gwmnïau y mae eu gweithgareddau'n gyfyngedig drwy eu rheolau sefydlog a bod angen i unrhyw newidiadau gael eu cymeradwyo gan y rhiant gwmni. Mae Bwrdd WWH yn derbyn adroddiadau gweithredol ac ariannol bob chwarter gan ei is-gwmnïau y mae'n eu hadolygu fel rhan o'r prif adroddiad perfformiad chwarterol.</p>	
<ul style="list-style-type: none"> Mae'n ofynnol i Fyrddau roi sicrwydd y caiff unrhyw weithgareddau a gyflawnir gan is-gwmni heb ei gofrestru ei reoli'n briodol, a rhaid iddynt ddeall y rhyngddibyniaeth a'r dulliau rheoli eithaf rhwng elfennau wedi rheoleiddio a heb eu rheoleiddio o'r busnes. 	<p>Gweler y sylwadau uchod.</p> <p>Hefyd mae WWH yn rhoi cymorth gweinyddol a chyfrifyddu i bob un o'i is-gwmnïau, yn ogystal â rheoli penodiadau i'r is-Fyrddau, gan ei alluogi i arfer cryn dipyn o reolaeth.</p> <p>Mae'r Pwyllgor Uniondeb ac Archwilio yn derbyn adroddiadau cyfnodol gan y Rheolwr Archwilio Mewnol ar gwmnïau Grŵp ac maent wedi gofyn am adroddiad pellach yn y maes hwn ar gyfer 2019.</p>	
<p>SP.4 Tystiolaeth glir o hunanwerthuso a datganiad cydymffurfiaeth</p>		
<p>CANLLAWIAU</p>		
<ul style="list-style-type: none"> Cydymffurfio â Chylchlythyr 02/15 - egwyddorion craidd hunanwerthuso i'w defnyddio gan Gymdeithasau Tai sydd wedi'u Cofrestru yng Nghymru, neu unrhyw ganllawiau dilynol sy'n disodli'r Cylchlythyr hwn 	<p>Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu proses o hunanwerthuso parhaus yn seiliedig ar egwyddorion gweithredu WWH. Mae'r staff a'r rheolwyr yn clustnodi rhwystrau i wella perfformiad ym mhob un o'r prif systemau a "sut rydym yn rhedeg ein systemau". Caiff y rhwystrau hyn eu crisialu a'u targedu ar gyfer gweithredu. Mae'r materion mwyaf arwyddocaol yn cael eu trosglwyddo i'r Penaethiaid Gwasanaeth ac fe'u cofnodir yn electronig ar y Fewnwyd fel "Prosiectau Corfforaethol neu Welliannau". Mae'r materion hyn yn rhan o hunanwerthusiad y Gymdeithas.</p> <p>Gall y Bwrdd fod yn sicr bod hunanwerthuso yn ei le oherwydd bod gwybodaeth berthnasol wedi'i chyfleu iddynt yn yr adroddiad perfformiad chwarterol ac i'r preswylwyr drwy gyfres o ffeithluniau sydd wedi'u cynnwys yn y cylchgrawn In Touch. Mae'r adroddiad perfformiad chwarterol yn cynnwys adran ar "Hunanwerthuso - crynodeb o'r materion allweddol".</p>	

Safon	Sut mae hyn yn cael ei gyflawni?	Camau Gwella
	Caiff y dystiolaeth i gefnogi'r datganiad cydymffurfio blynyddol ei chasglu gan y Rheolwr Archwilio Mewnol a'i chraffu gan y Pwyllgor Uniondeb ac Archwilio cyn ei chymeradwyo'n ffurfiol gan y Bwrdd.	
DISGWYLIADAU RHEOLEIDDIO YCHWANEGOL		
<ul style="list-style-type: none"> Mae Gweinidogion Cymru yn disgwyl i gymdeithasau tai gyhoeddi eu hunanwerthusiad mewn modd sy'n hygyrch i denantiaid 	Fel y nodwyd uchod, mae gwybodaeth am berfformiad yn cael ei throsglwyddo i'r preswylwyr drwy'r cylchgrawn In Touch. Hysbysir ymwelwyr â thudalen "ein perfformiad" y Gymdeithas ar y wefan "rydym yn cyhoeddi crynodeb o'n hunanwerthusiad fel rhan o'n cylchgrawn preswylwyr In Touch. Mae'r wefan wedyn yn rhoi dolen gyswllt i'r copi cyfredol o In Touch. Mae'r wybodaeth am berfformiad yn y cylchgrawn wedi'i nodi mewn gwahanol adrannau mewn modd sy'n hygyrch i'r preswylwyr.	
SP.5 Hanes o lwyddiant mewn sicrhau canlyniadau cadarnhaol, gan ymateb yn briodol i heriau newydd a materion perfformiad		
CANLLAWIAU		
<ul style="list-style-type: none"> Dangos sut mae'r bwrdd yn sicrhau ei hunan am berfformiad cyfredol, gan gynnwys boddhad tenantiaid, ac yn hybu gwelliant parhaus 	<p>Mae'r Tîm Data yn coladu ystod o Fesurau Gweithredol, gan gynnwys rhai mesurau boddhad preswylwyr, sy'n cael eu hadrodd i'r Bwrdd drwy'r diweddariadau chwarterol Strategol, Gweithredol ac Ariannol (Adroddiadau Perfformiad). Gyda'r mesurau, sy'n dangos perfformiad dros gyfnod o amser, ceir naratif sy'n crynhoi hunanwerthusiad y Gymdeithas a'r camau sy'n cael eu cymryd i wella perfformiad. Mae'r Bwrdd yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu mwy eu maint a gymerwyd drwy'r adran "Y Camau a gymerwyd ar y prosiectau corfforaethol" yn yr adroddiadau perfformiad chwarterol.</p> <p>Adolygir fformat adroddiad perfformiad chwarterol y Bwrdd ac ystod y mesurau yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu anghenion y Bwrdd. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys adrannau sy'n crynhoi rheolaeth ariannol a gwerth am arian, camau a gymerwyd ar y prosiectau corfforaethol, iechyd a diogelwch, perfformiad is-gwmnïau, rheoli risg a materion sy'n dod i'r amlwg. Trafodir cynnwys yr adroddiad hwn yng nghyfarfodydd perthnasol y Bwrdd.</p> <p>Cyflwynir adroddiadau ad hoc sy'n amlinellu materion penodol i'r Bwrdd yn ôl y gofyn (e.e. boddhad preswylwyr â'u cartrefi newydd yn yr adroddiad Alldro Datblygu blynyddol). Mae gwybodaeth am gwynion hefyd yn cael ei chasglu a'i hadrodd i'r Bwrdd yn flynyddol (gweler cofnodion y Bwrdd Chwefror 2018 eitemau 58.03 a Chwefror 2019 eitem 08.05). Yn hanesyddol mae lefelau cwynion wedi bod yn isel (e.e. 26 o gwynion yn 2018 a 47 o gwynion yn 2017).</p>	Bydd adolygiad cynhwysfawr o'r dulliau o gynnal arolwg o foddhad preswylwyr yn gyffredinol ac o ran gwasanaethau penodol yn cael ei wneud erbyn diwedd 2019.

Safon	Sut mae hyn yn cael ei gyflawni?	Camau Gwella
	<p>Roedd arolwg o foddhad preswylwyr 2018 a gynhaliwyd fis Ebrill / Mai 2018 gan gwmni allanol wedi holi 7% o'r holl breswylwyr (601 o breswylwyr a ddewiswyd drwy sampl cwota o'r holl aelwydydd) yn dangos cyfradd boddhad gyffredinol o 86% (65% yn 2016). Bu'r Bwrdd yn ystyried ac yn trafod yr adroddiad llawn yn ei gyfarfod fis Gorffennaf 2018 (gweler cofnodion eitem 12.8).</p>	
<ul style="list-style-type: none"> Dangos sut mae gosodiadau yn gwneud y defnydd gorau o'r tai sydd ar gael, yn gydnaws â diben craidd y Landlord Cymdeithasol Cofrestredig 	<p>Mae WWH yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol yn yr ardaloedd lle mae'n gweithredu. Mae'r mwyafrif llethol o osodiadau cymdeithasol (> 90%) yn cael eu gwneud drwy'r cofrestrai tai cyffredin. "Rydw i eisiau cartref" yw un o systemau craidd y Gymdeithas sy'n cwmpasu'r broses o osod un o eiddo'r Gymdeithas o'r dechrau i'r diwedd. Adroddir ar berfformiad yn y maes hwn i'r Bwrdd drwy'r mesurau gweithredol canlynol, ynghyd â sylwadau perthnasol yn yr adroddiadau perfformiad chwarterol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Canran y gosodiadau yn iawn y tro cyntaf; Nifer cyfartalog y diwrnodau ar gyfer gosod eiddo o'r dyddiad y daeth yr eiddo yn wag i ddechrau tenantiaeth newydd; Sgôr cyfartalog allan o ddeg a roddwyd gan breswylwyr newydd am foddhad â'r gwasanaeth cyffredinol a ddarparwyd. 	
DISGWYLIADAU RHEOLEIDDIO YCHWANEGOL		
<ul style="list-style-type: none"> Disgwylir i Fyrddau fod yn ymwybodol o'u perfformiad o gymharu â byrddau eraill, deall pam eu bod lle maent, penderfynu a ydynt lle maent am fod, a bod â chynllun credadwy ar gyfer gwella 	<p>Yn hanesyddol, mae WWH wedi canfod bod cymharu perfformiad â pherfformiad cymdeithasau tai eraill wedi bod o werth cyfyngedig oherwydd gwahaniaethau mewn amgylcheddau gweithredu ac yn y modd y mae mesurau yn cael eu cyfrifo.</p> <p>Mae dolen gyswllt i offeryn cymharu'r Cymdeithasau Tai, a gyflwynwyd yn 2018, wedi'i hychwanegu at wefan y Gymdeithas, sy'n galluogi cymharu perfformiad WWH â pherfformiad Cymdeithasau Tai eraill yng Nghymru. Nid yw'r Bwrdd wedi trafod y data hwn eto.</p>	<p>Bydd gwybodaeth am yr offeryn cymharu Cymdeithasau Tai yn cael ei hadolygu yn y Diwrnodau Cwrdd i Ffwrdd fis Gorffennaf 2019 i ystyried a oes unrhyw feysydd i'w harchwilio ymhellach.</p>
<ul style="list-style-type: none"> Disgwylir i Fyrddau ddeall a gallu dangos sut mae'r tai a osodir ganddynt yn cyfrannu at anghenion a strategaethau tai lleol. 	<p>Yn unol â datganiadau ariannol 2017, mae "Adeiladu cartrefi newydd ar gyfer preswylwyr yfory" yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol yng ngoleuni'r prinder parhaus o dai cymdeithasol ar hyd a lled y wlad. Mae WWH yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol ac yn bartner yn rhestr aros y gofrestr tai gyffredin yn y rhan fwyaf o ardaloedd yr Awdurdodau Lleol lle mae'n gweithredu.</p>	

Safon	Sut mae hyn yn cael ei gyflawni?	Camau Gwella
<p>Gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill a gwneud cyfraniad cadarnhaol i fynd i'r afael â digartrefedd.</p>	<p>Mae adroddiadau'r Bwrdd sy'n ceisio cymeradwyaeth i ddatblygiadau newydd i gyd yn cynnwys cyfeiriadau at farn yr Awdurdodau Lleol perthnasol a gwybodaeth am y galw yn lleol. Yn ogystal, mae'r Strategaeth Rheoli Asedau yn edrych ar berfformiad o ran gosodiadau er mwyn sicrhau bod galw am gartrefi.</p>	
<p>SP.6 Sicrhau gwerth am arian ym mhob maes o'r busnes</p>		
<p>CANLLAWIAU</p>		
<ul style="list-style-type: none"> • Dangos ymagwedd strategol at, a sicrhau gwerth am arian ar draws y busnes o ran costau a thaliadau gweithredol i'r tenantiaid a defnyddwyr y gwasanaeth 	<p>Cymeradwyodd y Bwrdd ymagwedd tuag at sicrhau Gwerth am Arian yn ei gyfarfod fis Tachwedd 2017 (gweler cofnodion eitem 34.1) sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth, caffael a chyllid (effeithlonrwydd trysorlys a threth), gyda'r pwyslais ar gyflawni gwerth yn hytrach na dim ond arbed arian. Mae'r Bwrdd yn ceisio canolbwyntio ar wneud yr hyn sy'n bwysig i gwsmeriaid drwy ddeall gofynion cyffredin, dylunio systemau i fodloni'r gofynion hynny a chael gwared ar wastraff yn y systemau hynny. Mae'r Bwrdd yn asesu hyn drwy fesurau yn yr adroddiad perfformiad chwarterol sy'n canolbwyntio ar wneud pethau'n iawn y tro cyntaf (e.e. atebion tro cyntaf, cadw apwyntiad, gosodiadau yn cael eu gwneud yn iawn y tro cyntaf ac ati).</p> <p>Mae'r adroddiad perfformiad chwarterol yn cynnwys adran naratif ar “grynodeb o'r rheolaeth ariannol a gwerth am arian” a ategir gan nifer o atodiadau. Ymhlith yr atodiadau hyn mae crynodeb penodol ar werth am arian sy'n dangos y mesurau y mae'r Gymdeithas wedi'u mabwysiadu ar effeithlonrwydd gweithredol, gan ganolbwyntio ar dueddiadau dros amser mewn costau ac incwm fesul uned, ail-fuddsoddi mewn eiddo, gan gynnwys tueddiadau costau ar geginau, ystafelloedd ymolchi a bwyleri, effeithlonrwydd trysorlys ac arian rhydd.</p> <p>Mae'r Bwrdd yn adolygu gwybodaeth am berfformiad yn ôl graff ac yn gweld tueddiadau hanesyddol (RPI wedi'i addasu, lle bo'n briodol), ynghyd â sylwebaeth. Mae'r atodiad ar werth am arian hefyd yn cynnwys adran ar foddhad preswylwyr a gwerth cymdeithasol. Mae'r wybodaeth hon, wedi'i chyfuno, yn rhan annatod o gylch cynllunio busnes ac fe'i defnyddir i lywio meysydd ar gyfer ffocws a phenderfyniadau pellach.</p>	

Safon	Sut mae hyn yn cael ei gyflawni?	Camau Gwella
DISGWYLIADAU RHEOLEIDDIO YCHWANEGOL		
<ul style="list-style-type: none"> • Disgwylir i Fyrddau roi sicrwydd bod ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gostau rhedeg eu busnes a bod ganddynt strategaeth glir ar gyfer trin a rheoli costau yn y dyfodol drwy wneud arbedion effeithlonrwydd a / neu ostwng gwariant 	<p>Gall y Bwrdd gael sicrwydd drwy'r cyfoeth o wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiadau perfformiad chwarterol sy'n cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr am y costau cyffredinol cyfredol o redeg y busnes o fewn y cyfrifon rheoli, costau yn y dyfodol drwy'r rhagolygon treigl, a chostau eitemau penodol drwy'r atodiadau gwerth am arian.</p>	
<ul style="list-style-type: none"> • Bydd y rheoleiddiwr angen sicrwydd nad yw'r tybiaethau a'r cynlluniau yn seiliedig ar ostyngiadau arwyddocaol a sylweddol mewn cynnal-a-chadw neu fuddsoddiad cyfalaf 	<p>Fel y nodir uchod, mae'r strategaeth gwerth am arian yn canolbwyntio ar bethau eraill heblaw am arbed arian. Nid yw'r cyfrifon incwm a gwariant a'r llifau arian parod a ddangosir yn y Cynllun Busnes 2019-2023 yn dangos unrhyw ostyngiadau sylweddol na pherthnasol mewn costau eiddo, gwaith atgyweirio mawr, gwariant cyfalaf newydd, cydrannau newydd, ar ôl caniatáu am chwyddiant a chynnydd mewn stoc.</p>	
<ul style="list-style-type: none"> • Disgwylir i Fyrddau roi lle canolog i fforddiadwyedd yn eu proses gwneud penderfyniadau yng nghyswllt gosod rhenti a medru dangos nad yw eu ffioedd yn achosi caledi i denantiaid 	<p>Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r angen i gydbwysio lefel taliadau rhent â'r awydd i godi arian i ail-fuddsoddi mewn eiddo presennol a newydd. Gellir dangos hyn gan y drafodaeth yn y Bwrdd ar fforddiadwyedd rhent pan drafodwyd codi rhenti 2018 yn ei gyfarfod fis Rhagfyr 2017 (gweler cofnodion eitem 46.02), a hefyd pan drafodwyd effaith cyhoeddiad rhent 2018/2019 Llywodraeth Cymru ar ddatblygiadau yn y dyfodol yn ei gyfarfod fis Rhagfyr 2018 (gweler cofnodion 10.2).</p> <p>Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd yn derbyn ac yn monitro adroddiadau rheolaidd sy'n dangos nifer a chanran y tenantiaethau sy'n talu eu rhent ar amser fel rhan o'r adroddiadau perfformiad chwarterol. Mae'n debygol na fyddai preswylwyr mewn caledi yn talu eu rhent ar amser. Byddai</p>	

Safon	Sut mae hyn yn cael ei gyflawni?	Camau Gwella
	hyn yn rhybudd i'r swyddog tai perthnasol i weld a oedd angen iddynt gynnig cymorth ychwanegol. Hyd yn hyn ni fu unrhyw duedd fesuradwy ar i lawr yn y mesur hwn.	
SP.7 Cydymffurfio â gofynion a chanllawiau rheoleiddiol a statudol		
CANLLAWIAU		
<ul style="list-style-type: none"> • Cyfathrebu mewn modd amserol â'r rheoleidiwr ar faterion sylweddol sy'n ymwneud â diffyg cydymffurfiaeth 	Hyd yn hyn, ni chafwyd unrhyw faterion perthnasol o ddiffyg cydymffurfio yr oedd angen cyflwyno adroddiadau ffurfiol arnynt.	
<ul style="list-style-type: none"> • Cydymffurfio â phob un o'r gofynion rheoleiddiol 	Gwneir ffurflenni rheoleiddio perthnasol pan fo angen, a lle bo'n briodol, ac mae systemau, gweithgareddau a phrosesau yn cael eu cynllunio i gymryd gofynion rheoleiddio i ystyriaeth. Mae Archwilio Mewnol hefyd yn rhoi rhywfaint o sicrwydd yn y maes hwn ac yn adolygu cywirdeb rhai ffurflenni. Mae archwiliad mewnol penodol o'r maes gweithredu hwn wedi'i gynnwys ar y flaen raglen waith gyfredol gydag amseriad dangosol o ganol 2019.	Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei baratoi a'i gyflwyno gerbron y Pwyllgor Uniondeb ac Archwilio fydd yn cynnwys y gofynion rheoleiddiol.
DISGWYLIADAU RHEOLEIDDIO YCHWANEGOL		
<ul style="list-style-type: none"> • Mae Byrddau'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Ddeddf Diogelu Data 	<p>Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r gofyniad hwn. Yn dilyn cais fis Rhagfyr 2017, cawsant adroddiad ar GDPR fis Mawrth 2018 oedd yn nodi cyd-destun y Ddeddf Diogelu Data bresennol, y modd yr oedd y GDPR yn ychwanegu at hynny, y dadansoddiad o'r bylchau a'r camau gweithredu ar gyfer cydymffurfio (gweler cofnodion y Bwrdd Mawrth 2019 - eitem 73.09).</p> <p>Derbyniodd y Pwyllgor Uniondeb ac Archwilio adroddiad gan y Rheolwr Archwilio Mewnol yn ei gyfarfod fis Ebrill 2019 oedd yn adolygu'r camau a gymerwyd gan y Gymdeithas i fodloni gofynion GDPR fel y clustnodir yn y dadansoddiad uchod o'r bylchau a'r cynllun gweithredu.</p> <p>Ychwanegwyd Diogelu Data a GDPR hefyd at y gofrestr Risgiau Corfforaethol fis Medi 2018.</p>	Cafodd nifer o gamau gwella eu clustnodi yn dilyn adroddiad archwilio mewnol 2019. Mae'r camau hyn yn mynd rhagddynt.

Safon	Sut mae hyn yn cael ei gyflawni?	Camau Gwella
PS.8 Cynllun ariannol sy'n cyflawni ac yn cefnogi'r cynllun busnes a monitro perfformiad ariannol yn effeithiol		
CANLLAWIAU		
<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod y sefydliad yn ariannol gadarn 	<p>Mae'r Bwrdd yn derbyn ac yn trafod ystod o wybodaeth ariannol a gyflwynir fel rhan o'r adroddiad perfformiad chwarterol sy'n galluogi'r Bwrdd i fonitro'r sefyllfa ariannol yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys: -</p> <ul style="list-style-type: none"> cyfrifon rheoli chwarterol sy'n cynnwys crynodeb o'r llif arian (yn dangos amrywiannau yn erbyn y rhagolygon), datganiad o incwm cynhwysfawr (yn dangos amrywiannau yn erbyn y rhagolygon) a datganiad o'r sefyllfa ariannol, rhagolygon treigl am y 5 mlynedd nesaf (llif arian rhydd, sgôr credyd ariannu, ail-fuddsoddi mewn eiddo, gwariant cyfalaf newydd, balansau benthyciadau a llog, gwariant a chyllid datblygu, gwybodaeth cyfamod gerio), datganiad sefyllfa ariannol sy'n dangos rhagamcanion arian parod a chyfleusterau benthyca ynghyd â swm y clustogfa arian parod / cyfleuster a ragwelwyd ar gyfer y 5 chwarter nesaf, wedi'i ddadansoddi yn ôl ymrwymadau cytundebol a heb fod yn gytundebol. 	
<ul style="list-style-type: none"> Systemau a mesurau rheoli effeithiol yn eu lle i fonitro ac adrodd yn gywir ar gyflawni cynlluniau'r 	<p>Trafodir materion sy'n deillio o'r hunanwerthuso parhaus gan y Bwrdd a'r Uwch Dim Rheoli a chaiff Prosiectau Corfforaethol / Gwella perthnasol eu lanlwytho ar y fewnrwyd i helpu i fonitro cynnydd. Adolygir statws y camau hyn gan yr UDRh yn eu cyfarfodydd rheolaidd. Mae'r Bwrdd yn derbyn diweddariadau rheolaidd drwy'r adroddiadau perfformiad chwarterol, gan roi sicrwydd iddynt yn y maes hwn.</p>	

Safon	Sut mae hyn yn cael ei gyflawni?	Camau Gwella
Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig		
<ul style="list-style-type: none"> • Monitro, adrodd ar, a chydymffurfio â phob cyfamod 	<p>Fel uchod, mae'r Bwrdd yn gallu gwneud hyn drwy'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr atodiadau i'r adroddiadau perfformiad chwarterol. Mae gwybodaeth ychwanegol wedi'i chynnwys mewn cyfrifon rheoli chwarterol sydd wedi'u hatodi i'r adroddiadau hyn.</p>	
DISGWYLIADAU RHEOLEIDDIO YCHWANEGOL		
<ul style="list-style-type: none"> • Mae angen i Fyrddau ddeall effaith newidiadau posibl mewn polisi rhenti ar eu cynlluniau ariannol a'u gweithgareddau busnes 	<p>Y newidiadau i'r cynnydd a ragwelir mewn rhenti yw un o'r sensitifrwydd safonol a gymhwysir i'r rhagamcanion ariannol 30 mlynedd. Defnyddiwyd y sensitifrwydd canlynol i'r achos sylfaenol fis Gorffennaf 2018 i ddangos yr effaith ar arian rhydd, sgôr credyd, yswiriant llog a gerio: -</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnydd mewn rhenti wedi'i gyfyngu i CPI o 2020 ymlaen • Rhewi rhenti o 2019-2020 ac yna cynyddu yn ôl CPI o 2021 • Rhewi rhenti o 2019-2023 ac yna cynyddu yn ôl CPI o 2024 <p>Roedd rhain yn dangos y byddai rhewi rhenti am gyfnod estynedig yn cael effaith niweidiol iawn ar y cynllun yn y tymor byr (gweler cofnodion y Bwrdd Gorffennaf 2018 eitem 12.2).</p> <p>Roedd y Bwrdd wedi dangos eu bod yn deall effaith y newid ym mholisi Rhenti LIC a gyhoeddwyd fis Rhagfyr 2018, (lle na fyddai'r cynnydd rhent yn 2019/20 yn uwch na'r CPI) drwy ofyn cwestiynau perthnasol am yr effaith ar ddatblygiadau yn y dyfodol ac ar ragdybiaethau'r cynllun busnes a sensitifrwydd oedd y Bwrdd eisoes wedi'i gytuno (gweler cofnodion y Bwrdd Rhagfyr 2018 eitem 10.2).</p>	

Safon	Sut mae hyn yn cael ei gyflawni?	Camau Gwella
	Mae polisi rhent LIC wedi'i gynnwys yn y gofrestr Risg Corfforaethol fel risg bosibl.	
<ul style="list-style-type: none"> • Pan gyflwynir system cyllido newydd ar gyfer tai â chymorth, rhaid i Fyrddau sicrhau eu bod yn deall goblygiadau'r model cyllid newydd ac ystyried strategaethau lliniaru os canfyddir nad yw'r gwasanaethau yn gynaliadwy neu'n hyfyw 	Ar hyn o bryd dim ond rhan fach o fusnes y Gymdeithas yw tai â chymorth. Unwaith y bydd unrhyw oblygiadau ariannu newydd yn hysbys, bydd modelu ariannol perthnasol yn cael ei wneud i asesu a fyddai unrhyw newidiadau neu ailfodelu gwasanaeth yn ddymunol.	
<ul style="list-style-type: none"> • Rhaid i Fyrddau ddal ati i adolygu cynlluniau pensiwn i benderfynu a yw eu cynlluniau presennol yn addas i'r diben ac yn fforddiadwy. Dylent glustnodi risgiau eu darpariaeth pensiwn a'r risgiau i'r ddarpariaeth honno. 	Mae'r Bwrdd yn llwyr ymwybodol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â phensiynau. Comisiynwyd actiwari annibynnol, First Actuarial, fis Mehefin 2018 i gynnal adolygiad er mwyn asesu'r opsiynau sydd ar gael i'r Gymdeithas i helpu i ffurfio strategaeth yn y dyfodol ar bensiynau. Bu'r Bwrdd yn ystyried gwahanol opsiynau yn ei gyfarfod fis Rhagfyr 2018, a chytunwyd ar gamau i leihau risg costau yn y dyfodol, gan gynnwys cau'r cynllun GOFAL 1/60 i aelodau newydd yn dilyn yr ymgynghoriad gorfodol â gweithwyr (gweler cofnodion y Bwrdd Rhagfyr 2018 eitem 10.4).	

Safon	Sut mae hyn yn cael ei gyflawni?	Camau Gwella
<ul style="list-style-type: none"> Mae angen i gynlluniau busnes fod yn gadarn i sefyllfa lle mae pwysau chwyddiant yn fwy na'r twf mewn incwm 	<p>Defnyddiwyd sensitifrwydd i'r achos sylfaenol fis Gorffennaf 2018 i ddangos yr effaith ar arian rhydd, sgôr credyd, yswiriant llog a gerio, ar waith cynnal a chadw, atgyweiriadau mawr a chwyddiant pris cydrannau fel a ganlyn:-</p> <ul style="list-style-type: none"> ar CPI +1.5% hyd 2023, yna CPI + 0.5% ar CPI +3% hyd 2023, yna CPI + 2% ar CPI +4.5% hyd 2023, yna CPI + 3.5% <p>Roedd rhain yn dangos y byddai lefelau uchel o chwyddiant cynnal a chadw yn cael effaith niweidiol sylweddol ar y cynllun, gyda thorri cyfamod yn 2030 am y lefel uchaf o gynnydd mewn sgorau credyd wedi'u modelu a sgorau gwael yn cyfyngu dyheadau yn sylweddol cyn hyn (gweler cofnodion y Bwrdd Gorffennaf 2018 eitem 12.2).</p>	
<ul style="list-style-type: none"> Wrth i Gymdeithasau Tai ail-negodi trefniadau cyllido yn dilyn cyflwyno'r safon tai FRS102 newydd, mae angen i Fyrddau sicrhau y caiff goblygiadau'r cyfamodau newydd arfaethedig eu deall yn llawn 	<p>Mae'r Gymdeithas wedi negodi atebion cyfamod benthyciadau sy'n niwtral i effeithiau safon gyfrifyddu newydd FRS102. Dim ond dau fenthyciad sydd â chyfamodau; mae'r ddau ar sail llif arian sydd felly'n rhydd rhag newidiadau FR102 (gweler cofnodion Bwrdd Ionawr 2016 eitem 73.3).</p>	
<ul style="list-style-type: none"> Mae angen i Fyrddau sicrhau bod unrhyw strategaethau a glustnodwyd i liniaru sefyllfaoedd sy'n deillio o brofion straen yn realistig ac y gellir eu gweithredu mewn pryd i sicrhau llif arian ac y gellir cynnal cydymffurfiaeth cyfamodau 	<p>Gall y Bwrdd gymryd sicrwydd o adroddiad rhagamcanion ariannol 30 mlynedd Gorffennaf 2018 a ddaeth i'r casgliad bod "llif arian rhydd yn parhau gydol cyfnod y cynllun i fod yn uwch na'r lefel ddymunol sy'n cyflawni ein hamcan o gael statws credyd oddeutu 1.25. Mae sensitifrwydd i ragdybiaethau a sefyllfaoedd yn dangos y dylai fod digon o amser i gymryd camau adfer i osgoi unrhyw anawsterau os bydd symudiadau andwyol posibl yn unrhyw un o'r rhagdybiaethau allweddol. Mae profion straen y cynllun busnes wedi galluogi'r Gymdeithas i ddeall effaith sefyllfa waethaf bosibl ar y cynllun busnes 30 mlynedd" (gweler cofnodion y Bwrdd Gorffennaf 2018 eitem 12.2).</p>	

Safon	Sut mae hyn yn cael ei gyflawni?	Camau Gwella
<ul style="list-style-type: none"> Rhaid i Fyrddau sicrhau bod lefel y cyfraddau llog sy'n eu hwynebu yn briodol ar gyfer eu busnes 	<p>Gall y Bwrdd gymryd sicrwydd o strategaeth ariannol flynyddol 2019. Roedd hyn yn dangos bod y Gymdeithas mewn sefyllfa ariannol ardderchog gyda'r rhan fwyaf o'r dyledion wedi'u cloi mewn benthyciadau cyfradd llog isel tymor hir a chost gweinyddu isel gyda nifer fach o fenthycwyr. Byddai mabwysiadu'r strategaeth yn gadael y Gymdeithas â phortffolio benthyciadau rhagamcanol sy'n cynnwys 95% ar gyfraddau sefydlog, 4% ar gyfraddau amrywiadwy ac 1% ar gyswllt mynegai, gyda chyfradd llog gyfartalog, petai'n cael ei dynnu i lawr yn llwyr, o 3.7% (gweler cofnodion y Bwrdd Rhagfyr 2018 eitem 10.3).</p>	
PS.9 Rheoli gweithrediadau trysorlys yn effeithiol gan sicrhau hylifedd digonol bob amser		
CANLLAWIAU		
<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod cyllid digonol ar gael i gyflawni'r cynllun busnes 	<p>Mae cynllun busnes 2019-2023 yn dangos llif arian rhydd cadarnhaol yn y flwyddyn sy'n dangos y gall yr holl weithrediadau cyfredol (gan gynnwys gwaith cynnal a chadw adweithiol, atgyweiriadau mawr a chydrannau newydd) gael eu hariannu gan incwm rhent. Mae'r cynllun busnes hwn yn rhagweld y bydd cyllid digonol yn gallu bodloni dyheadau datblygu o gymryd grantiau, gwerthiannau eiddo, cyllid newydd ac ad-daliadau benthyciadau i ystyriaeth.</p> <p>Mae'r Bwrdd yn adolygu'r rhagolygon llif arian diweddaraf yn rheolaidd ac yn derbyn datganiad ysgrifenedig o'r sefyllfa ariannol ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd sy'n rhoi manylion am arian parod a chyfleuster nas defnyddiwyd, ynghyd â gwariant datblygu yr ymrwymwyd iddo, gwariant a gymeradwywyd a gwariant rhagamcanol yn y dyfodol. Ategir hyn gan gyflwyniad llafar.</p>	
<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod rhagolygon ariannol yn seiliedig ar dybiaethau priodol a rhesymol 	<p>Mae'r Bwrdd yn adolygu ac yn cymeradwyo'r rhagdybiaethau ariannol sy'n ategu'r rhagolygon 5 a 30 mlynedd a'r modelau arfarnu dichonoldeb datblygu bob blwyddyn. Mae'r rhagdybiaethau hyn yn cael eu hadolygu ymhellach os bydd unrhyw newidiadau perthnasol yn yr amodau economaidd sylfaenol neu debyg. Cymeradwywyd y rhagdybiaethau hyn gan y Bwrdd yn ei gyfarfod fis Gorffennaf 2018 (gweler cofnodion y Bwrdd Gorffennaf 2018 eitem 12.2 a 12.3).</p>	
DISGWYLIADAU RHEOLEIDDIO YCHWANEGOL		

Safon	Sut mae hyn yn cael ei gyflawni?	Camau Gwella
<ul style="list-style-type: none"> Mae angen i'r Bwrdd fod â strategaeth gadarn o reoli trysorlys yn ei lle i ddelio â nifer y risgiau gwahanol sy'n gysylltiedig â rheoli cyllid 	<p>Mae'r rhain wedi'u cynnwys yn yr adroddiad strategaeth ariannol blynyddol.</p>	
<ul style="list-style-type: none"> Mae angen i Fyrddau sicrhau bod ganddynt ddigon o wybodaeth ac arbenigedd i fedru asesu'r risgiau hyn a chael cyngor allanol priodol pan fo gofyn 	<p>Mae'r Bwrdd yn derbyn hyfforddiant rheolaidd ar faterion ariannol i'w helpu i gael y ddealltwriaeth angenrheidiol o risgiau posibl. Gofynnir i aelodau'r Bwrdd a oes angen unrhyw hyfforddiant neu gymorth ychwanegol arnynt adeg eu harfarniad blynyddol. Mae'r Rheolau Sefydlog yn nodi mai un o gyfrifoldebau'r Cadeiryddion yw "sicrhau bod y Bwrdd yn ceisio ac yn derbyn cyngor proffesiynol ac annibynnol pan fo angen".</p> <p>Yn ystod trafodaeth ar y benthyciad arfaethedig o £20m THFC yng nghyfarfod y Bwrdd fis Chwefror 2018, yn dilyn ymholiad gan y Rheoleiddiwr, disgrifiodd y Bwrdd yr amrywiol ffyrdd yr oeddent wedi cael sicrwydd ar hyn e.e. darperir hyfforddiant ariannol i'r aelodau o leiaf unwaith y flwyddyn; roedd y Cyfarwyddwr Gweithredol (Adnoddau) yn eistedd ar amryw o baneli allanol gan gynnwys LIC lle mae materion ariannol yn cael eu trafod ymhlith cymdeithasau tai eraill a bod llais ariannol bob amser ar y Bwrdd (gweler cofnodion y Bwrdd Chwefror 2018 eitem 59.01).</p>	
<p>PS.10 Dealltwriaeth glir o ymrwymiadau a pherfformiad asedau</p>		
<p>CANLLAWIAU</p>		
<ul style="list-style-type: none"> Cadw cofnod trylwyr, cywir a chyfredol o asedau ac ymrwymiadau gan gynnwys yr holl ymrwymiadau sy'n 	<p>Cymeradwyodd y Bwrdd fformat y gofrestr asedau a rhwymedigaethau fis Mai 2017. Mae'r Bwrdd yn derbyn diweddariadau rheolaidd drwy grynodedb a gynhwysir yn y cyfrifon rheoli chwarterol (gweler cofnodion y Bwrdd Mai 2017 eitem 113.05.</p>	

Safon	Sut mae hyn yn cael ei gyflawni?	Camau Gwella
gysylltiedig ag asedau tai cymdeithasol		
<ul style="list-style-type: none"> Data ar berfformiad ariannol a chymdeithasol asedau yn gywir ac yn cael ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau ar fuddsoddi 	<p>Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo'r dull gweithredu a nodir yn Strategaeth Rheoli Asedau'r Gymdeithas (gweler cofnodion y Bwrdd fis Chwefror 2019 eitem 08.09) sy'n nodi sut y gwneir penderfyniadau a'u blaenoriaethu i fuddsoddi mewn asedau eiddo. Mae tri cam penodol: -</p> <ul style="list-style-type: none"> Deall y portffolio asedau, Deall perfformiad asedau, a Blaenoriaethu buddsoddiadau yn y portffolio asedau. <p>Y Bwrdd sy'n gwneud yr holl benderfyniadau buddsoddi ar raddfa fawr naill ai yn seiliedig ar y tair rhaglen waith flynyddol ar raddfa fawr neu ar adroddiadau unigol sy'n ymwneud â chynigion penodol.</p>	
<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod y data ar gyflwr eu hasedau yn gyfredol ac yn gallu dangos y rhoddwyd ystyriaeth i gostau tymor byr a hirdymor y gwaith cynnal - a-chadw, atgyweirio ac adnewyddu 	<p>Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo'r dull a amlinellir yn y Strategaeth Rheoli Asedau uchod sy'n nodi'r ystod o ddulliau sydd yn eu lle i gasglu gwybodaeth am asedau a sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei diweddarau. Mae hyn yn cynnwys arolygon llawn o gyflwr y stoc, arolygon dilysu, cylchoedd gwaith cydymffurfio, asesiadau risg tân blynyddol a thystysgrifau effeithlonrwydd ynni ar ddiwedd tenantiaeth. Cydlynir yr adolygiadau asedau treigl ddwywaith y flwyddyn gan y Grŵp Rheoli Asedau.</p> <p>Mae'r strategaeth Rheoli Asedau newydd yn rhagweld y bydd tîm Cydymffurfiaeth Eiddo y Gymdeithas yn archwilio canlyniadau'r arolwg o gyflwr y stoc er mwyn sicrhau cywirdeb a chysondeb. Yn ogystal, gall y Bwrdd gael sicrwydd drwy adolygiadau archwilio mewnol cyfnodol o'r broses a gynhaliwyd yn unol â'r flaen-raglen waith a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Uniondeb ac Archwilio (gweler yr adroddiad Archwilio Mewnol – SATC 2018).</p>	
<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod cartrefi a gyllidir gan arian cyhoeddus yn bodloni'r 	<p>Mae pob un o'r tai cymdeithasol newydd a adeiladwyd gan y Gymdeithas, gyda chymorth Grant Tai Cymdeithasol neu Grant Cyllid Tai, wedi'u cynllunio i gydymffurfio â Gofynion Ansawdd Datblygu a Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC) a chaiff pob cynllun ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru cyn cychwyn ar y gwaith. Mae pob cartref waeth beth fo'r cyllid yn bodloni'r safonau dylunio</p>	


Safon	Sut mae hyn yn cael ei gyflawni?	Camau Gwella
<p>safonau dylunio gofynnol a Safon Ansawdd Tai Cymru</p>	<p>perthnasol. Mae cydymffurfiaeth barhaus â SATC wedi'i ymgorffori yn y Strategaeth Rheoli Asedau yn unol â Pholisi Cydymffurfiaeth Safon Ansawdd Tai Cymru (gweler cofnodion y Bwrdd Gorffennaf 2018 eitem 12.5).</p> <p>Roedd y Bwrdd wedi cymeradwyo'r Polisi Cydymffurfiaeth Safon Ansawdd Tai Cymru yn ei gyfarfod fis Rhagfyr 2017. Roedd y Gymdeithas wedi llwyddo i gyrraedd safon SATC erbyn y terfyn amser cychwynnol o 2012. Mae'r polisi hwn yn nodi sut mae'r Gymdeithas yn ceisio cynnal cydymffurfiaeth (gweler cofnodion y Bwrdd Rhagfyr 2017 eitem 47.02).</p> <p>Mae'r Bwrdd yn adolygu ffurflen statudol SATC Llywodraeth Cymru cyn ei chyflwyno bob blwyddyn. Adolygwyd y cyflwyniad drafft gan Archwilio Mewnol yn 2018 ac mae'r Pwyllgor Uniondeb ac Archwilio hefyd wedi gofyn i Archwilio Mewnol adolygu cyflwyniad drafft 2019 (gweler yr adroddiad Archwilio Mewnol - SATC 2018 a blaen-raglen waith Archwilio Mewnol Ebrill 2019).</p>	
<p>DISGWYLIADAU RHEOLEIDDIO YCHWANEGOL</p>		
<ul style="list-style-type: none"> • Dylai'r Bwrdd fod yn fodlon bod yr holl rwymedigaethau cynllunio, amodau A106, gweithredoedd teitl a'r gwaith papur angenrheidiol arall yn eu lle fel bod yr asedau hynny ar gael i roi'r sicrwydd ar gyfer cyllid ychwanegol mewn modd amserol 	<p>Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd yn dibynnu i raddau helaeth ar staff y Gymdeithas, ond gellir sicrhau'r Bwrdd bod anghenion cyllid yn cael eu clustnodi ymhell ymlaen llaw fyddai'n caniatáu digon o amser i fynd i'r afael â materion adferol. Mae gan y Gymdeithas fwy na digon o sicrwydd ar gael i fodloni ymrwymadau yn y dyfodol. Mae gwybodaeth am roi sicrwydd ar gyfleusterau benthyca wedi'i chynnwys yn y gofrestr Asedau a Rhwymedigaethau sy'n cael ei diweddarau bob chwarter a'i hatodi i'r cyfrifon rheoli.</p>	
<ul style="list-style-type: none"> • Rhaid i Fyrddau allu rhoi sicrwydd eu bod yn deall y risg wrth iddynt wneud penderfyniadau am gynaliadwyedd hirdymor eu stoc 	<p>Ymdrinnir â hyn yn y strategaeth Rheoli Asedau drwy'r adolygiadau asedion treigl a thrwy glustnodi asedau sy'n perfformio'n dderbyniol a'r asedau nad ydynt yn perfformio'n dderbyniol.</p>	

Safon	Sut mae hyn yn cael ei gyflawni?	Camau Gwella
<ul style="list-style-type: none"> Bydd y Rheoleiddiwr yn ceisio sicrwydd bod Byrddau'n deall goblygiadau telerau ac amodau eu contractau a'u cytundebau presennol a rhai'r dyfodol ac yn sicrhau eu bod yn deall y rhwymedigaethau a'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig â phob un 	<p>Mae'r Bwrdd yn derbyn Datganiad Sefyllfa Ariannol ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd. Mae hyn naill ai'n cael ei gynnwys yn yr Adroddiad Perfformiad Chwarterol neu yn eitem ar wahân ar yr agenda. Mae'r datganiad hwn yn dangos rhagamcanion arian parod a chyfleusterau benthyca hyd at ddiwedd y 4 neu 5 chwarter nesaf, wedi'u dadansoddi ar wahân rhwng gwariant cytundebol a gwariant nad yw'n gytundebol (a rennir ymhellach i wariant sydd wedi'i gymeradwyo ac yn aros am gontract, cynigion ar yr agenda gyfredol, a chynlluniau gwariant nad ydynt yn barod eto i'w cymeradwyo). Mae'r datganiadau yn dangos y byffer cyn cyllido newydd, ac yn nodi lle bydd angen cyllid newydd.</p> <p>Fel y nodir uchod, mae crynodeb o'r asedau a'r rhwymedigaethau ynghlwm wrth y cyfrifon rheoli a gyflwynir i'r Bwrdd bob chwarter.</p>	
<ul style="list-style-type: none"> Mae angen i Fyrddau ddeall pa risg gwrth barti y mae eu sefydliad yn agored iddo, a rhoi mesurau lliniaru yn eu lle i reoli unrhyw risgiau cysylltiedig. 	<p>Nid oes unrhyw risgiau gwrth barti.</p>	


Cymeradwywyd y Datganiad Cydymffurfiaeth hwn gan y Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 4 Ebrill 2019, Penderfyniad Rhif B 12.07.

Llofnodwyd:

Cadeirydd


.....

Prif Weithredwr


.....

Dyddiad:

4/4/19.
.....